Cadeiryddion Rhanbarthol Tribiwnlysoedd Cyflogaeth

Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn awyddus i benodi dau Gadeirydd Rhanbarthol Tribiwnlysoedd Cyflogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr, un wedi'i leoli yng Nghaerdydd a'r llall yn Llundain.

Mae'r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth yn datrys anghydfodau rhwng cyflogwyr a chyflogeion ynghylch hawliau cyflogaeth.

Mae gan y Cadeirydd Rhanbarthol gyfrifoldeb arwain barnwrol pwysig, a bydd angen iddo weithredu cyfarwyddiadau'r Llywydd wrth oruchwylio'r rhanbarth yn gyffredinol. Bydd angen i chi ddangos safonau uchel o reoli achosion a gwneud penderfyniadau. Mae'n ofynnol hefyd bod ymgeiswyr sy'n gwneud cais am y swydd yng Nghaerdydd naill ai'n gallu siarad Cymraeg neu'n barod i gael hyfforddiant i feithrin gwybodaeth ymarferol o'r iaith Gymraeg.

Lleoliadau: Caerdydd a Llundain

Cyflog: £126,400

Am ragor o fanylion am y swyddi cyffrous hyn ac i gael ffurflen gais, ewch i'n gwefan **www.judicialappointments.gov.uk**, anfonwch e-bost atom ar **jaas@jac.gsi.gov.uk**, neu ffoniwch ni ar **020 3334 0123**. Defnyddiwch y cyfeirnod 00416 ar bob cyfathrebiad.

6 Ionawr 2009 yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol sy'n dewis ymgeiswyr ar gyfer swyddi barnwrol. Mae'n gwneud hynny yn ôl teilyngdod, drwy gystadleuaeth deg ac agored.

JAC
JUDICIAL APPOINTMENTS COMMISSION